CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Rheoliadau Cymdeithas Ddysgedig Cymru

**(Cymeradwywyd gan y Cyngor, 19 Tachwedd 2025)**

## 1. Llywodraethu

1.1 Bydd y Gymdeithas yn cael ei llywodraethu gan Gyngor sy'n cynnwys:

i. Swyddogion y Gymdeithas
ii. Aelodau Etholedig
iii. Aelodau Cyfetholedig

1.2 Cyfeirir at Swyddogion ac Aelodau Etholedig a Chyfetholedig gyda'i gilydd fel "aelodau'r Cyngor".

1.3 Bydd holl aelodau'r Cyngor yn Ymddiriedolwyr y Gymdeithas.

1.4 Bydd Pwerau a Dyletswyddau'r Cyngor fel y'u diffinnir yn y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.

## 2. Swyddogion y Gymdeithas

2.1 Bydd gan y Gymdeithas bum Swyddog:

i. Llywydd.
ii. dau Is-lywydd; y naill o gategori eang Gwyddoniaeth, Technoleg, Mathemateg a Meddygaeth a'r llall o gategori eang y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.
iii. Trysorydd.
iv. Ysgrifennydd Cyffredinol.

2.2 Bydd Pwerau a Dyletswyddau'r Swyddogion fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau hyn.

## 3. Y Cyngor

3.1 Bydd y Cyngor yn cynnwys yr aelodau canlynol:

i. Y Llywydd.
ii. Y ddau Is-lywydd.
iii. Y Trysorydd.
iv. Yr Ysgrifennydd Cyffredinol.
v. Aelodau Etholedig; ni chaiff mwy na phymtheg o Gymrodyr y Gymdeithas eu hethol gan y Gymrodoriaeth.
vi. Aelodau Cyfetholedig; ni chaiff y Cyngor gyfethol mwy na dau Gymrawd o'r Gymdeithas.
vii. Ni chaiff cyfanswm aelodaeth y Cyngor fod yn llai na deg o bobl.

3.2 Er mwyn sicrhau cydbwysedd cynrychioliadol o arbenigedd a rhywedd ymhlith aelodau’r Cyngor:

i. Fel arfer, ni chaiff llai na chwarter a dim mwy na dwy ran o dair o'r Cyngor ddod o gategori eang Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth (STEMM).
ii. Fel arfer, chaiff llai na chwarter a dim mwy na dwy ran o dair o'r Cyngor ddod o gategori eang y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (HASS).
iii. Fel arfer, bydd Cymrodyr a dderbynnir yn y categori Diwydiant, Masnach, y Celfyddydau a'r Proffesiynau (ICAP) wedi'u cynrychioli gan isafswm o dri o'u nifer ar y Cyngor.
iv. Fel arfer, bydd y Cyngor yn anelu i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau, gan sicrhau nad yw cyfran y menywod ar y Cyngor yn llai na'u cyfran o fewn y Gymrodoriaeth.

3.3 Bydd y Cyngor yn cynnal, yn cyhoeddi ac yn adolygu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cyngor. Bydd y Cod Ymddygiad yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Gymdeithas a thrafodion y Cyngor yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith, gydag uniondeb ac mewn modd atebol. Rhaid i bob aelod o'r Cyngor gadw at y Cod Ymddygiad.

## 4. Llywydd a Chadeirydd y Cyngor

4.1. Fel arfer, dylai'r Llywydd lywyddu yng nghyfarfodydd y Cyngor ac yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a dylai Gadeirio cyfarfodydd y Cyngor.

4.2. Pennir Tymhorau Swydd y Llywydd fel a ganlyn:

i. dylai'r Llywydd gwblhau tymor Swydd o hyd at dair Blynedd y Gymdeithas (fel y diffinnir yn unol a'r Rheoliadau hyn); dylai tymor Swydd y Llywydd ddechrau ar ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir bod y Llywydd wedi'i ethol.
ii. gall y Llywydd geisio cael ei ail-ethol am ail dymor o hyd at dair Blynedd y Gymdeithas; ni fydd Llywydd sydd wedi gwasanaethu am ddau dymor swydd yn gymwys i'w ail-ethol am dymor arall olynol.
iii. bydd y Llywydd yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor yn unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau; mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r Llywydd hefyd ymadael â Swydd y Llywydd, neu gael ei ddiswyddo o'r swydd honno.

4.3 Penderfynir Enwebu ac Ethol y Llywydd fel a ganlyn:

i. etholir y Llywydd gan Gymrodyr y Gymdeithas o blith y Cymrodyr hynny.
ii. dylai'r Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu, ac eithrio'r Llywydd a chan gynnwys y Prif Weithredwr, wahodd ac yn asesu awgrymiadau gan Gymrodyr ar gyfer ethol Llywydd i olynu Llywydd y mae ei dymor yn y swydd wedi dod i ben; Bydd y Cyngor yn ystyried yr argymhellion ac yn cyflwyno'r ymgeisydd/ymgeiswyr mwyaf addas i'w (h)ethol.
iii. cynhelir yr etholiad drwy bleidlais sy'n cynnwys yr holl Gymrodyr; rhaid anfon ffurflenni pleidleisio ar bapur neu ar ffurf electronig at y Cymrodyr o leiaf bedair wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol perthnasol lle cyhoeddir canlyniad yr etholiad.
iv. rhaid dychwelyd ffurflenni pleidleisio cyn pen un niwrnod ar hugain ar ôl eu hanfon at Gymrodyr.
v. bydd dau Gymrawd, na fyddant yn aelodau o'r Cyngor, yn cael eu henwebu gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol i wasanaethu fel Craffwyr ar gyfer yr etholiad; er mwyn cael ei ethol rhaid i'r ymgeisydd dderbyn cefnogaeth mwyafrif syml o'r Cymrodyr hynny sy'n dychwelyd papurau pleidleisio erbyn y dyddiad cau; y Craffwyr yn unig a fydd yn archwilio ac yn cyfrif y pleidleisiau, ym mhresenoldeb y Clerc, y byddant yn cyflwyno eu hadroddiad iddo; yna bydd y Clerc yn adrodd canlyniad yr etholiad wrth yr Ysgrifennydd Cyffredinol; wedi hynny, bydd yr Ymgeisydd llwyddiannus yn cael gwybod ei fod wedi cael ei ethol yn Llywydd a Chadeirydd Cyngor y Gymdeithas; bydd y Clerc hefyd yn hysbysu'r holl Gymrodyr am ganlyniad yr etholiad ac yn trefnu i'r canlyniad gael ei gyhoeddi'n gyhoeddus; cyhoeddir canlyniad yr etholiad hefyd yn ystod y

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

vi yn absenoldeb y Clerc bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

4.4 Dilynir y drefn ganlynol er mwyn penderfynu penodi Llywydd arall yn lle'r Llywydd presennol, neu i ddiswyddo'r Llywydd:

i. os bydd Llywydd yn marw neu'n ymddiswyddo yn ystod ei dymor yn y swydd, dylai'r Cyngor ymgynnull yn brydlon i gychwyn y broses o ethol rhywun yn ei le o fewn dim llai na chwe mis, yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau hyn; nes bod y Llywydd newydd wedi'i ethol, bydd y Cyngor yn penodi un o'r Is-lywyddion i wasanaethu fel Llywydd dros dro.

ii. os bydd Llywydd, ym marn ystyriol y Cyngor, yn profi nad yw'n addas, neu'n gallu cyflawni dyletswyddau'r swydd, neu ei fod fel arall yn gwneud unrhyw beth i ddifrodi, niweidio neu amharchu'r Gymdeithas, gall gael ei ddiswyddo.

iii. os, ar ôl ystyriaeth briodol, y bydd mwyafrif y Cyngor yn ystyried bod diswyddo'r Llywydd o'i swydd er budd pennaf y Gymdeithas, bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cynnull Cyfarfod Cyffredinol o'r Gymdeithas i benderfynu ar y mater hwn.

iv. bydd y Cyngor yn penderfynu pa rai o'i aelodau fydd yn cyflwyno'r achos dros ddiswyddo'r Llywydd a pha rai o'i aelodau fydd yn Cadeirio'r Cyfarfod Cyffredinol.

v. yn y Cyfarfod Cyffredinol, dylai'r sawl sy'n cyflwyno'r achos dros ddiswyddo'r Llywydd egluro i'r Cymrodyr sy'n bresennol pam, ym marn y Cyngor, y dylid diswyddo'r Llywydd; os yw'r Llywydd yn anghytuno â'r bwriad hwn, bydd yn cael uchafswm o ddeng munud ar hugain i egluro wrth y Cymrodyr sy'n bresennol pam na ddylai gael ei ddiswyddo.

vi. yna bydd y Cymrodyr sy'n bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol yn bwrw ymlaen i bleidleisio'n gyfrinachol i benderfynu a ddylid diswyddo'r Llywydd ai peidio; Os bydd dwy ran o dair o'r Cymrodyr sy'n bresennol wedi pleidleisio o blaid diswyddo'r Llywydd, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn datgan ei fod ef neu hi wedi'i ddiswyddo drwy ddweud y geiriau hyn:

“Yr wyf yn datgan, drwy awdurdod ac yn enw Cymdeithas Ddysgedig Cymru, nad [enw’r Llywydd] yw Llywydd y Gymdeithas mwyach."

vii. yna bydd aelodau'r Cyfarfod Cyffredinol yn bwrw ymlaen i ethol un o'r Is-lywyddion i swydd Llywydd dros dro, ar sail mwyafrif syml.

viii. yna bydd y Llywydd dros dro yn gwasanaethu nes bod Llywydd newydd yn cael ei ethol o dan y Rheoliadau hyn.

## 5. Y Is-lywyddion

5.1 Dyletswyddau'r Is-lywyddion fydd cyflawni dyletswyddau'r Llywydd yn ei absenoldeb a chyflawni dyletswyddau eraill a all gael eu pennu gan y Llywydd neu'r Cyngor o bryd i'w gilydd. Fel arfer, bydd un o'r Is-lywyddion hyn o gategori eang y Dyniaethau, Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol; bydd yr Is-lywydd arall fel arfer o'r categori eang Gwyddoniaeth, Technoleg, Mathemateg a Meddygaeth.

5.2. Pennir Tymhorau Swydd Is-lywydd fel a ganlyn:

i. dylai'r Is-lywyddion wasanaethu am dymor o hyd at dair Blynedd y Gymdeithas fel y diffinnir hynny'n unol â'r Rheoliadau hyn; bydd tymor Swydd Is-lywydd yn dechrau ar ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddwyd ei fod wedi cael ei ethol.
ii. gall Is-lywydd geisio cael ei ail-ethol am ail dymor o hyd at dair Blynedd y Gymdeithas.
iii. ni fydd Is-lywydd ar ôl gwasanaethu am ddau dymor yn gymwys i gael ei ail-ethol am dymor olynol arall.
iv. bydd Is-lywydd yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau yn digwydd; mewn achos o'r fath, dylai'r Is-lywydd hefyd ymadael â Swydd yr Is-lywydd, neu gael ei ddiswyddo o'r swydd honno.

5.3 Penderfynir Ethol yr Is-lywyddion fel a ganlyn:

i. Etholir y ddau Is-lywydd gan aelodau'r Gymdeithas o blith yr aelodau hynny, yn unol â'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.
ii. Rhaid i Gymrodyr sy'n dymuno cael eu hethol wneud cais ysgrifenedig, a bydd y papurau ymgeisio yn cael eu hanfon at bob Cymrawd o leiaf ddeuddeg wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir canlyniad yr etholiad. Yn ogystal â'r papurau ymgeisio, rhoddir gwybod i'r Cymrodyr a yw'r Is-lywyddion cyfredol, y mae eu tymor yn y swydd ar fin dod i ben, yn eu cynnig eu hunain i'w hail-ethol, ynghyd â chofnod o'u presenoldeb yn y Cyngor.
iii. Bydd Cymrodyr wedyn yn gwneud eu ceisiadau o leiaf chwe wythnos cyn cyhoeddi canlyniad yr etholiad; bydd pob cais yn cynnwys datganiad i gefnogi cais y Cymrawd.
iv. Bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ymgeiswyr yn addas i'w penodi os bydd nifer y ceisiadau a dderbynnir yn hafal i nifer y swyddi gwag. Os derbynnir mwy o geisiadau dilys na'r swyddi sydd ar gael, bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ceisiadau hynny'n addas ar gyfer cynnal etholiad.
v. cynhelir yr etholiad drwy bleidlais gan yr holl Gymrodyr; rhaid anfon ffurflenni pleidleisio at y Cymrodyr ar bapur neu ar ffurf electronig o leiaf bedair wythnos

cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol perthnasol lle cyhoeddir canlyniad yr etholiad.

vi. Yn ogystal â'r ffurflenni pleidleisio, dylai'r Clerc ddarparu'r canlynol i'r Cymrodyr:
- rhestr yr ymgeiswyr sy'n cael eu cyflwyno i'w hystyried, ynghyd â gwybodaeth am bob ymgeisydd.

vii. rhaid dychwelyd ffurflenni pleidleisio cyn pen un niwrnod ar hugain o'r dyddiad pan gânt eu hanfon at y Cymrodyr.

viii. Darperir craffwyr ar gyfer yr etholiad hwn yn unol â'r Rheoliadau hyn.

ix. bydd dau Gymrawd, nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, yn cael eu henwebu gan y Llywydd i wasanaethu fel Craffwyr ar gyfer yr etholiad; y Craffwyr yn unig a fydd yn archwilio ac yn cyfrif y pleidleisiau, ym mhresenoldeb y Clerc, y byddant yn cyflwyno eu hadroddiad iddo; cyhoeddir canlyniad yr etholiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; ar ôl hynny, bydd y Clerc yn hysbysu pob Cymrawd am ganlyniad yr etholiad.

x. yn absenoldeb y Clerc bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

5.4 Defnyddir y drefn ganlynol er mwyn penderfynu penodi Is-lywydd arall yn lle'r Is-lywydd presennol, neu i ddiswyddo'r Is-lywydd:

i. os bydd Is-lywydd, yn ystod ei dymor yn y swydd, yn marw, yn ymddiswyddo neu, fel arall, ym marn ystyriol y Cyngor, yn dod yn analluog a/neu'n methu â chyflawni ei ddyletswyddau yn ystod ei dymor yn y swydd, bydd y Cyngor yn dewis rhywun yn ei le, yn unol â'r Rheoliadau hyn.

ii. os bydd Is-lywydd, ym marn ystyriol y Cyngor, yn dangos ei fod yn anaddas, neu'n analluog i gyflawni dyletswyddau'r swydd neu, fel arall, yn gwneud unrhyw beth sy'n difrodi, yn niweidio neu'n amharchu enw'r Gymdeithas, gall gael ei ddiswyddo; ni chaiff y Cyngor ddiswyddo Is-lywydd o'i swydd nes rhoi cyfle rhesymol iddo gael gwrandawiad gan y Cyngor.

iii. os, ar ôl ystyriaeth briodol, y bydd mwyafrif o aelodau'r Cyngor o'r farn fod y camau gweithredu hyn er budd pennaf y Gymdeithas, dylai'r Llywydd gynnull Cyfarfod Cyffredinol o'r Gymdeithas i benderfynu ar y mater hwn.

iv. yn y Cyfarfod Cyffredinol, dylai'r Llywydd gyflwyno i'r Cymrodyr y rheswm pam, ym marn y Cyngor, y dylid diswyddo Is-lywydd; os yw'r Is-lywydd yn anghytuno â'r bwriad hwn, bydd yn cael uchafswm o ddeng munud ar hugain i egluro wrth y Cymrodyr sy'n bresennol pam na ddylai gael ei ddiswyddo.

v. yna bydd y Cymrodyr sy'n bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol yn bwrw ymlaen i bleidleisio'n gyfrinachol i benderfynu a ddylid diswyddo'r Is-lywydd ai peidio; os bydd dwy ran o dair o'r Cymrodyr sy'n bresennol wedi pleidleisio o blaid diswyddo Is-lywydd, dylai'r Llywydd ddatgan bod yr Is-lywydd wedi'i ddiswyddo drwy ddweud y geiriau hyn:

"Yr wyf yn datgan, drwy awdurdod ac yn enw Cymdeithas Ddysgedig Cymru, nad yw [enw'r Is-lywydd] yn Is-lywydd y Gymdeithas mwyach".

vi. Gall y Cyngor benodi un o'i blith i wasanaethu fel Is-Lywydd Dros Dro nes y

gellir ethol Is-Lywydd newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn.

vii. dylid wedyn ethol Is-lywydd newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Y Trysorydd

6.1 Bydd y Trysorydd yn atebol i'r Cyngor am ofal a goruchwyliaeth briodol dros faterion ariannol y Gymdeithas.

6.2. Pennir Telerau Swydd y Trysorydd fel a ganlyn:

i. dylai'r Trysorydd wasanaethu am dymor o hyd at dair Blynedd y Gymdeithas yn y Swydd, fel y'i diffinnir yn unol â'r Rheoliadau hyn; dylai tymor Swydd y Trysorydd ddechrau ar ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir bod y Trysorydd wedi'i ethol.

ii. gall y Trysorydd geisio cael ei ail-ethol am ail dymor o hyd at dair Blynedd y Gymdeithas.

iii. ni fydd y Trysorydd, ar ôl gwasanaethu am ddau dymor, yn gymwys i gael ei ail-ethol am dymor olynol pellach.

iv. bydd y Trysorydd yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau yn digwydd; mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r Trysorydd hefyd ymadael â Swydd y Llywydd, neu gael ei ddiswyddo o'r swydd honno.

6.3 Penderfynir Ethol y Trysorydd fel a ganlyn:

i. Etholir y Trysorydd gan Gymrodyr y Gymdeithas o blith y Cymrodyr hynny.

ii. Rhaid i Gymrodyr sy'n dymuno cael eu hethol wneud cais ysgrifenedig, a bydd y papurau ymgeisio yn cael eu hanfon at bob Cymrawd o leiaf ddeuddeg wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir canlyniad yr etholiad. Yn ogystal â'r papurau ymgeisio, rhoddir gwybod i'r Cymrodyr a yw'r Trysorydd cyfredol, y mae ei dymor yn y swydd ar fin dod i ben, yn ei gynnig ei hun i'w ail-ethol, ynghyd â chofnod o'i bresenoldeb yn y Cyngor ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid.

iii. Bydd Cymrodyr wedyn yn gwneud eu ceisiadau o leiaf chwe wythnos cyn cyhoeddi canlyniad yr etholiad; bydd pob cais yn cynnwys datganiad i gefnogi cais y Cymrawd.

iv. Bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ceisiadau'n addas i'w penodi pan fydd nifer y ceisiadau a dderbynnir yr un fath â nifer y swyddi gwag, os ceir mwy o geisiadau dilys na nifer y swyddi sydd ar gael, cynhelir etholiad.

v. cynhelir yr etholiad drwy bleidlais gan yr holl Gymrodyr; rhaid anfon ffurflenni pleidleisio at y Cymrodyr ar bapur neu ar ffurf electronig o leiaf bedair wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol perthnasol lle cyhoeddir canlyniad yr etholiad.

vi. Yn ogystal â'r ffurflenni pleidleisio, dylai'r Clerc ddarparu'r canlynol i'r Cymrodyr:
   - rhestr yr ymgeiswyr sy'n cael eu cyflwyno i'w hystyried, ynghyd â gwybodaeth am bob ymgeisydd.

vii. rhaid dychwelyd ffurflenni pleidleisio cyn pen un niwrnod ar hugain o'r dyddiad pan gânt eu hanfon at y Cymrodyr.

viii. Darperir craffwyr ar gyfer yr etholiad hwn yn unol â'r Rheoliadau hyn.

ix. bydd dau Gymrawd, nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, yn cael eu henwebu gan y Llywydd i wasanaethu fel Craffwyr ar gyfer yr etholiad; y Craffwyr yn unig a fydd yn archwilio ac yn cyfrif y pleidleisiau, ym mhresenoldeb y Clerc, y byddant yn cyflwyno eu hadroddiad iddo; cyhoeddir canlyniad yr etholiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; ar ôl hynny, bydd y Clerc yn hysbysu pob Cymrawd am ganlyniad yr etholiad.

x. yn absenoldeb y Clerc bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

6.4 Dilynir y drefn ganlynol er mwyn penderfynu penodi Trysorydd arall yn lle'r Trysorydd presennol, neu i ddiswyddo'r Trysorydd:

i. os bydd y Trysorydd, yn ystod ei dymor yn y swydd, yn marw, yn ymddiswyddo neu, fel arall, ym marn ystyriol y Cyngor, yn dod yn analluog a/neu'n methu â chyflawni ei ddyletswyddau, dylai'r Cyngor ddewis rhywun yn ei le, yn unol â'r Rheoliadau hyn.

ii. os bydd Y Trysorydd, ym marn ystyriol y Cyngor, yn dangos ei fod yn anaddas, neu'n analluog i gyflawni dyletswyddau'r swydd neu, fel arall, yn gwneud unrhyw beth sy'n difrodi, yn niweidio neu'n amharchu enw'r Gymdeithas, gall gael ei ddiswyddo; ni chaiff y Cyngor ddiswyddo'r Trysorydd nes rhoi cyfle rhesymol iddo gael gwrandawiad gan y Cyngor.

iii. os, ar ôl ystyriaeth briodol, y bydd mwyafrif o aelodau’r Cyngor o'r farn fod y camau gweithredu hyn er budd pennaf y Gymdeithas, dylai'r Llywydd gynnull Cyfarfod Cyffredinol o’r Gymdeithas i benderfynu ar y mater hwn.

iv. yn y Cyfarfod Cyffredinol, dylai'r Llywydd gyflwyno i'r Cymrodyr y rheswm pam, ym marn y Cyngor, y dylid diswyddo'r Trysorydd; os yw'r Trysorydd yn anghytuno â'r bwriad hwn, rhoddir cyfnod o ddim mwy na thri deg munud iddynt esbonio i'r Cymrodyr sy'n bresennol pam na ddylid eu diswyddo o'u swydd.

v. yna dylai'r Cymrodyr sy'n bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol fwrw ymlaen i bleidleisio'n gyfrinachol i benderfynu a ddylid diswyddo'r Trysorydd ai peidio; os bydd dwy ran o dair o'r Cymrodyr sy'n bresennol wedi pleidleisio o blaid diswyddo'r Trysorydd, dylai'r Llywydd ddatgan bod y Trysorydd wedi'i ddiswyddo drwy ddweud y geiriau hyn:

“Yr wyf yn datgan, drwy awdurdod ac yn enw Cymdeithas Ddysgedig Cymru, nad [enw'r Trysorydd] yw Trysorydd y Gymdeithas mwyach.”

vi. Gall y Cyngor benodi un o'i blith i wasanaethu fel Trysorydd Dros Dro nes y gellir ethol Trysorydd newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn.

vii. dylid wedyn ethol Trysorydd newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn.

## 7. Yr Ysgrifennydd Cyffredinol

7.1 Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn atebol i'r Cyngor am gynnal busnes cyffredinol y Gymdeithas, ac eithrio'r agweddau sy'n ymwneud â chyllid. Bydd yn cyflwyno adroddiadau gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a allai fod yn angenrheidiol i roi gwybodaeth i Gymrodyr am fusnes y Cyngor. Gall fynd i holl gyfarfodydd y Gymdeithas.

7.2 Pennir Tymhorau Swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol fel a ganlyn:

i. dylai'r Ysgrifennydd Cyffredinol wasanaethu am dymor o hyd at dair Blynedd y Gymdeithas yn y Swydd, fel y'i diffinnir yn unol â'r Rheoliadau hyn; bydd tymor Swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn dechrau ar ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir ei fod wedi cael ei ethol.
ii. gall yr Ysgrifennydd Cyffredinol geisio cael ei ail-ethol am ail dymor o hyd at dair Blynedd y Gymdeithas.
iii. ar ôl gwasanaethu am ddau dymor, ni fydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn gymwys i'w ail-ethol am dymor swydd olynol arall.
iv. bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau yn digwydd; mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r Ysgrifennydd Cyffredinol hefyd ymadael â Swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, neu gael ei ddiswyddo o'r swydd honno.

7.3 Penderfynir Ethol yr Ysgrifennydd Cyffredinol fel a ganlyn:

i. Etholir yr Ysgrifennydd Cyffredinol gan Gymrodyr y Gymdeithas o'u plith.
ii. Rhaid i Gymrodyr sy'n dymuno cael eu hethol wneud cais ysgrifenedig, a bydd y papurau ymgeisio yn cael eu hanfon at bob Cymrawd o leiaf ddeuddeg wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir canlyniad yr etholiad. Yn ogystal â'r papurau ymgeisio, rhoddir gwybod i'r Cymrodyr a yw'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyfredol, y mae ei dymor yn y swydd ar fin dod i ben, yn ei gynnig ei hun i'w ail-ethol, ynghyd â chofnod o'i bresenoldeb yn y Cyngor.
iii. Bydd Cymrodyr wedyn yn gwneud eu ceisiadau o leiaf chwe wythnos cyn cyhoeddi canlyniad yr etholiad; bydd pob cais yn cynnwys datganiad i gefnogi cais y Cymrawd.
iv. Bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ymgeiswyr yn addas i'w penodi os bydd nifer y ceisiadau a dderbynnir yn hafal i nifer y swyddi gwag. Os derbynnir mwy o geisiadau dilys na'r swyddi sydd ar gael, bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ceisiadau hynny'n addas ar gyfer cynnal etholiad.
v. cynhelir yr etholiad drwy bleidlais gan yr holl Gymrodyr; rhaid anfon ffurflenni pleidleisio at y Cymrodyr ar bapur neu ar ffurf electronig o leiaf bedair wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol perthnasol lle cyhoeddir canlyniad yr

etholiad.

vi. Yn ogystal â'r ffurflenni pleidleisio, dylai'r Clerc ddarparu'r canlynol i'r Cymrodyr:

- rhestr yr ymgeiswyr sy'n cael eu cyflwyno i'w hystyried, ynghyd â gwybodaeth am bob ymgeisydd.

vii. rhaid dychwelyd ffurflenni pleidleisio cyn pen un niwrnod ar hugain o'r dyddiad pan gânt eu hanfon at y Cymrodyr.

viii. Darperir craffwyr ar gyfer yr etholiad hwn yn unol â'r Rheoliadau hyn.

ix. bydd dau Gymrawd, nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, yn cael eu henwebu gan y Llywydd i wasanaethu fel Craffwyr ar gyfer yr etholiad; y Craffwyr yn unig a fydd yn archwilio ac yn cyfrif y pleidleisiau, ym mhresenoldeb y Clerc, y byddant yn cyflwyno eu hadroddiad iddo; cyhoeddir canlyniad yr etholiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; ar ôl hynny, bydd y Clerc yn hysbysu pob Cymrawd am ganlyniad yr etholiad.

x. yn absenoldeb y Clerc bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

7.4 Dilynir y drefn ganlynol er mwyn penderfynu penodi Ysgrifennydd Cyffredinol arall yn lle'r Ysgrifennydd Cyffredinol presennol, neu i ddiswyddo'r Ysgrifennydd Cyffredinol:

i. os bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, yn ystod ei dymor yn y swydd, yn marw, yn ymddiswyddo neu, fel arall, ym marn ystyriol y Cyngor, yn dod yn analluog a/neu'n methu â chyflawni ei ddyletswyddau, dylai'r Cyngor ddewis rhywun yn ei le, yn unol â'r Rheoliadau hyn.

ii. os bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ym marn ystyriol y Cyngor, yn dangos ei fod yn anaddas, neu'n analluog i gyflawni dyletswyddau'r swydd neu, fel arall, yn gwneud unrhyw beth sy'n difrodi, yn niweidio neu'n amharchu enw'r Gymdeithas, gall gael ei ddiswyddo; ni chaiff y Cyngor ddiswyddo'r Ysgrifennydd Cyffredinol nes rhoi cyfle rhesymol iddo gael gwrandawiad gan y Cyngor.

iii. os, ar ôl ystyriaeth briodol, y bydd mwyafrif o aelodau'r Cyngor o'r farn fod y camau gweithredu hyn er budd pennaf y Gymdeithas, dylai'r Llywydd gynnull Cyfarfod Cyffredinol o'r Gymdeithas i benderfynu ar y mater hwn.

iv. yn y Cyfarfod Cyffredinol, dylai'r Llywydd gyflwyno i'r Cymrodyr y rheswm pam, ym marn y Cyngor, y dylid diswyddo'r Ysgrifennydd Cyffredinol o'r swydd honno; os yw'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn anghytuno â'r bwriad hwn, bydd yn cael uchafswm o ddeng munud ar hugain i egluro wrth y Cymrodyr sy'n bresennol pam na ddylai gael ei ddiswyddo.

v. yna bydd y Cymrodyr sy'n bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol yn bwrw ymlaen i bleidleisio'n gyfrinachol i benderfynu a ddylid diswyddo'r Ysgrifennydd Cyffredinol ai peidio; os bydd dwy ran o dair o'r Cymrodyr sy'n bresennol wedi pleidleisio o blaid diswyddo'r Ysgrifennydd Cyffredinol, dylai'r Llywydd ddatgan bod yr Ysgrifennydd Cyffredinol wedi'i ddiswyddo drwy ddweud y geiriau hyn:

"Yr wyf yn datgan, drwy awdurdod ac yn enw Cymdeithas Ddysgedig Cymru, nad [enw'r Ysgrifennydd Cyffredinol] yw Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas

mwyach."

vi. Gall y Cyngor benodi un o'i blith i wasanaethu fel Ysgrifennydd Cyffredinol Dros Dro nes y gellir ethol Ysgrifennydd Cyffredinol newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn.
vii. dylid wedyn ethol Ysgrifennydd Cyffredinol newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn.

## 8. Aelodau Etholedig y Cyngor

8.1 Pennir Tymhorau Swydd Aelodau Etholedig y Cyngor fel a ganlyn:

i. ac eithrio lle darperir ar gyfer hynny yn y Rheoliadau hyn, tymor Swydd Aelodau Etholedig y Cyngor fydd tair Blwyddyn Gymdeithas fel arfer.
ii. Bydd Aelodau Etholedig y Cyngor yn gymwys i'w hail-ethol am ail dymor
iii. Ni fydd Aelodau Etholedig sydd wedi gwasanaethu am ddau dymor yn gymwys i'w hail-ethol am dymor pellach nes bod o leiaf un Flwyddyn Gymdeithas wedi mynd heibio.
iv. bydd tymor Swydd Aelodau Etholedig newydd y Cyngor yn dechrau ar ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir eu bod wedi cael eu hethol.

8.2 Pennir Tymhorau Swydd Aelodau Etholedig y Cyngor fel a ganlyn:

i. Etholir Aelodau'r Cyngor gan Gymrodyr y Gymdeithas o'u plith.
ii. Rhaid i Gymrodyr sy'n dymuno cael eu hethol wneud cais ysgrifenedig, a bydd y papurau ymgeisio yn cael eu hanfon at bob Cymrawd o leiaf ddeuddeg wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir canlyniad yr etholiad. Yn ogystal â'r papurau ymgeisio, rhoddir gwybod i'r Cymrodyr a yw pob Aelod Etholedig cyfredol o'r Cyngor, y mae ei dymor yn y swydd ar fin dod i ben, yn ei gynnig ei hun i'w ail-ethol, ynghyd â chofnod o'i bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor.
iii. Bydd Cymrodyr wedyn yn gwneud eu ceisiadau o leiaf chwe wythnos cyn cyhoeddi canlyniad yr etholiad; bydd pob cais yn cynnwys datganiad i gefnogi cais y Cymrawd.
iv. Bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ymgeiswyr yn addas i'w penodi os bydd nifer y ceisiadau a dderbynnir yn hafal i nifer y swyddi gwag. Os derbynnir mwy o geisiadau dilys na'r swyddi sydd ar gael, bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ceisiadau hynny'n addas ar gyfer cynnal etholiad.
v. cynhelir yr etholiad drwy bleidlais gan yr holl Gymrodyr; rhaid anfon ffurflenni pleidleisio at y Cymrodyr ar bapur neu ar ffurf electronig o leiaf bedair wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol perthnasol lle cyhoeddir canlyniad yr etholiad.
vi. Yn ogystal â'r ffurflenni pleidleisio, dylai'r Clerc ddarparu'r canlynol i'r Cymrodyr:
   - nifer a natur y swyddi gwag sydd i'w llenwi drwy'r etholiad.
- rhestr yr ymgeiswyr sy'n cael eu cyflwyno i'w hystyried, ynghyd â gwybodaeth

am bob ymgeisydd.

vii. rhaid dychwelyd ffurflenni pleidleisio cyn pen un niwrnod ar hugain o'r dyddiad pan gânt eu hanfon at y Cymrodyr.

viii. Darperir craffwyr ar gyfer yr etholiad hwn yn unol â'r Rheoliadau hyn.

ix. bydd dau Gymrawd, nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, yn cael eu henwebu gan y Llywydd i wasanaethu fel Craffwyr ar gyfer yr etholiad; y Craffwyr yn unig a fydd yn archwilio ac yn cyfrif y pleidleisiau, ym mhresenoldeb y Clerc, y byddant yn cyflwyno eu hadroddiad iddo; cyhoeddir canlyniad yr etholiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; ar ôl hynny, bydd y Clerc yn hysbysu pob Cymrawd am ganlyniad yr etholiad.

x. yn absenoldeb y Clerc bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

8.3 Dilynir y drefn ganlynol er mwyn penderfynu penodi Aelod newydd yn lle Aelod Etholedig o'r Cyngor, neu i ddiswyddo Aelod Etholedig o'r Cyngor:

i. bydd Aelod Etholedig o'r Cyngor yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau yn digwydd.

ii. os bydd Aelod Etholedig o'r Cyngor, yn ystod ei dymor yn y swydd, yn marw, yn ymddiswyddo neu, fel arall, ym marn ystyriol y Cyngor, yn dod yn analluog a/neu'n methu â chyflawni ei ddyletswyddau, dylai'r Cyngor ddewis rhywun yn ei le, yn unol â'r Rheoliadau hyn.

iii. os bydd Aelod Etholedig o'r Cyngor, ym marn ystyriol y Cyngor, yn dangos ei fod yn anaddas, neu'n analluog i gyflawni dyletswyddau'r swydd neu, fel arall, yn gwneud rhywbeth sy'n difrodi, yn niweidio neu'n amharchu enw'r Gymdeithas, gall gael ei ddiswyddo; ni chaiff y Cyngor ddiswyddo Aelod Etholedig o'r Cyngor nes rhoi cyfle rhesymol iddo gael gwrandawiad gan y Cyngor.

iv. os, ar ôl ystyriaeth briodol, y bydd mwyafrif o aelodau’r Cyngor o'r farn fod y camau gweithredu hyn er budd pennaf y Gymdeithas, dylai'r Llywydd gynnull Cyfarfod Cyffredinol o’r Gymdeithas i benderfynu ar y mater hwn.

v. yn y Cyfarfod Cyffredinol, dylai'r Llywydd gyflwyno i'r Cymrodyr y rheswm pam, ym marn y Cyngor, y dylid diswyddo'r Aelod Etholedig o'r Cyngor; os yw Aelod Etholedig y Cyngor yn anghytuno â'r bwriad hwn, bydd yn cael uchafswm o ddeng munud ar hugain i egluro wrth y Cymrodyr sy'n bresennol pam na ddylai gael ei ddiswyddo.

vi. yna dylai'r Cymrodyr sy'n bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol fwrw ymlaen i bleidleisio'n gyfrinachol i benderfynu a ddylid diswyddo'r Aelod Etholedig o'r Cyngor ai peidio; os bydd dwy ran o dair o'r Cymrodyr sy'n bresennol wedi pleidleisio o blaid diswyddo Aelod Etholedig o'r Cyngor, dylai'r Llywydd ddatgan bod yr Aelod Etholedig wedi'i ddiswyddo drwy ddweud y geiriau hyn:

“Yr wyf yn datgan, drwy awdurdod ac yn enw Cymdeithas Ddysgedig Cymru, nad yw

[enw Aelod Etholedig y Cyngor] yn aelod o'r Cyngor mwyach".

vii. gellir wedyn ethol Aelodau Etholedig y Cyngor yn unol â'r Rheoliadau hyn.

## 9. Aelodau Cyfetholedig y Cyngor

9.1 Bydd gan y Cyngor yr awdurdod i gyfethol hyd at ddau Gymrawd ychwanegol i wasanaethu ar y Cyngor.

9.2 Ac eithrio'r dull o'u penodi, bydd yr Aelodau Cyfetholedig hyn o'r Cyngor yn ddarostyngedig i'r un telerau ac amodau ag Aelodau Etholedig y Cyngor, fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau hyn.

## 10. Aelodau Etholedig Pwyllgorau Llywodraethu

10.1 Mae'r darpariaethau canlynol yn berthnasol i Bwyllgorau a sefydlir o dan delerau Is-ddeddfau'r Gymdeithas, lle bo cylch gorchwyl y Pwyllgorau hynny yn eu dynodi'n Bwyllgorau Llywodraethu.

10.2 Pennir Tymhorau Swydd Aelodau Etholedig Pwyllgorau Llywodraethu fel a ganlyn:

i. Ac eithrio lle darperir ar gyfer hynny yn y Rheoliadau hyn, tymor Swydd Aelodau Etholedig Pwyllgorau Llywodraethu fydd tair Blwyddyn Gymdeithas fel arfer.

ii. Bydd Aelodau Etholedig Pwyllgorau Llywodraethu yn gymwys i'w hail-ethol am ail dymor.

iii. Ni fydd Aelodau Etholedig sydd wedi gwasanaethu am ddau dymor yn gymwys i'w hail-ethol am dymor pellach nes bod o leiaf un Flwyddyn Gymdeithas wedi mynd heibio.

iv. Bydd tymor Swydd Aelodau Etholedig newydd Pwyllgorau Llywodraethu fel arfer yn dechrau ar ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y flwyddyn wedi iddynt gael eu hethol.

10.3 Pennir Tymhorau Swydd Aelodau Etholedig Pwyllgorau Llywodraethu fel a ganlyn:

i. Etholir aelodau Pwyllgorau Llywodraethu gan Gymrodyr y Gymdeithas o'u plith.

ii. Rhaid i Gymrodyr sy'n dymuno cael eu hethol wneud cais ysgrifenedig, a bydd y papurau ymgeisio yn cael eu hanfon at bob Cymrawd o leiaf ddeuddeg wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan gyhoeddir canlyniad yr etholiad. Yn ogystal â'r papurau ymgeisio, rhoddir gwybod i'r Cymrodyr a yw pob Aelod Etholedig cyfredol o'r Pwyllgorau Llywodraethu, y mae ei dymor yn y swydd ar fin dod i ben, yn ei gynnig ei hun i'w ail-ethol, ynghyd â chofnod o'i bresenoldeb yn y Cyngor.

iii. Bydd Cymrodyr wedyn yn gwneud eu ceisiadau o leiaf chwe wythnos cyn cyhoeddi canlyniad yr etholiad; bydd pob cais yn cynnwys datganiad i gefnogi cais y Cymrawd.

iv. Bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ymgeiswyr yn addas i'w penodi os bydd nifer y ceisiadau a dderbynnir yn hafal i nifer y swyddi gwag. Os derbynnir mwy o geisiadau dilys na'r swyddi sydd ar gael, bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r ceisiadau hynny'n addas ar gyfer cynnal etholiad.

v. cynhelir yr etholiad drwy bleidlais gan yr holl Gymrodyr; rhaid anfon ffurflenni pleidleisio ar bapur neu'n electronig at y Cymrodyr o leiaf bedair wythnos cyn y 1 Rhagfyr pan gaiff canlyniad yr etholiad ei gyhoeddi.

vi. Yn ogystal â'r ffurflenni pleidleisio, dylai'r Clerc ddarparu'r canlynol i'r Cymrodyr:
- nifer a natur y swyddi gwag sydd i'w llenwi drwy'r etholiad
- rhestr yr ymgeiswyr sy'n cael eu cyflwyno i'w hystyried, ynghyd â gwybodaeth am bob ymgeisydd

vii. rhaid dychwelyd ffurflenni pleidleisio cyn pen un niwrnod ar hugain o'r dyddiad pan gânt eu hanfon at y Cymrodyr.

viii. Darperir craffwyr ar gyfer yr etholiad hwn yn unol â'r Rheoliadau hyn.

ix. bydd dau Gymrawd, nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, yn cael eu henwebu gan y Llywydd i wasanaethu fel Craffwyr ar gyfer yr etholiad; y Craffwyr yn unig a fydd yn archwilio ac yn cyfrif y pleidleisiau, ym mhresenoldeb y Clerc, y byddant yn cyflwyno eu hadroddiad iddo; cyhoeddir canlyniad yr etholiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; ar ôl hynny, bydd y Clerc yn hysbysu pob Cymrawd am ganlyniad yr etholiad.

x. yn absenoldeb y Clerc bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

10.4 Dilynir y drefn ganlynol er mwyn penderfynu penodi Aelod newydd yn lle Aelod Etholedig o'r Pwyllgorau Llywodraethu, neu i ddiswyddo'r Aelod hwnnw:

i. bydd Aelod Etholedig o bwyllgor llywodraethu yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau yn digwydd.

ii. os bydd Aelod Etholedig o Bwyllgor Llywodraethu, yn ystod ei dymor yn y swydd, yn marw, yn ymddiswyddo neu, fel arall, ym marn ystyriol Pwyllgor Llywodraethu, yn dod yn analluog a/neu'n methu â chyflawni ei ddyletswyddau, dylai'r Pwyllgor ddewis rhywun yn ei le, yn unol â'r Rheoliadau hyn.

iii. os bydd Aelod Etholedig o Bwyllgor Llywodraethu, ym marn ystyriol y Pwyllgor, yn dangos ei fod yn anaddas, neu'n analluog i gyflawni dyletswyddau'r swydd neu, fel arall, yn gwneud rhywbeth sy'n difrodi, yn niweidio neu'n amharchu enw'r Gymdeithas, gall gael ei ddiswyddo; Ni chaiff Pwyllgorau Llywodraethu ddiswyddo Aelod Etholedig o'r Pwyllgor nes iddo gael cyfle rhesymol i gael ei gwrandawiad gan y Pwyllgor.

iv. Os, ar ôl ystyriaeth briodol, y bydd mwyafrif o aelodau’r Pwyllgor o'r farn fod y

camau gweithredu hyn er budd pennaf y Gymdeithas, dylai'r Cadeirydd gynnull Cyfarfod o Gyngor y Gymdeithas i benderfynu ar y mater hwn.

v. yn y Cyfarfod, dylai'r Cadeirydd gyflwyno i'r Cyngor y rheswm pam y dylid diswyddo Aelod Etholedig y Pwyllgor, ym marn y Pwyllgor; os yw Aelod Etholedig y Pwyllgor yn anghytuno â'r bwriad hwn, bydd yn cael uchafswm o ddeng munud ar hugain i egluro wrth aelodau'r Cyngor sy'n bresennol pam na ddylai gael ei ddiswyddo.

vi. yna dylai'r aelodau'r Cyngor sy'n bresennol yn y Cyfarfod fwrw ymlaen i bleidleisio'n gyfrinachol i benderfynu a ddylid diswyddo Aelod Etholedig y Pwyllgor ai peidio; os bydd dwy ran o dair o aelodau'r Cyngor sy'n bresennol wedi pleidleisio i ddiswyddo Aelod Etholedig y Pwyllgor, bydd y Llywyd yn ei hysbys nad yw'n aelod o'r Pwyllgor mwyach.

vii. gellir wedyn ethol Aelodau Etholedig y Pwyllgor yn unol â'r Rheoliadau hyn.

## 11. Aelodau Cyfetholedig o Bwyllgorau Llywodraethu

11.1 Bydd gan Bwyllgorau Llywodraethu yr awdurdod i gyfethol hyd at ddau Gymrawd ychwanegol i wasanaethu ar y Pwyllgor.

11.2 Ac eithrio'r dull o'u penodi, bydd yr Aelodau Cyfetholedig hyn o'r Pwyllgor yn ddarostyngedig i'r un telerau ac amodau ag Aelodau Etholedig y Pwyllgor, fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau hyn.

## 12. Cymrodyr

12.1 Cymrodyr yw aelodau Cymdeithas Ddysgedig Cymru, fel y'u diffinnir gan y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau. Bydd person yn peidio â bod yn Gymrawd os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn y Rheoliadau hyn yn digwydd.

12.2 Diffinnir breintiau bod yn Gymrawd o'r Gymdeithas fel a ganlyn:

i. Bydd gan Gymrodyr hawl i gyfeirio atynt eu hunain fel Cymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru a byddant, ymhellach i hyn, yn cael defnyddio'r llythrennau FLSW ar ôl eu henwau.

ii. Bydd gan Gymrodyr hawl i bleidleisio mewn etholiadau ar gyfer y Llywyddiaeth ac i fod yn Aelodau Etholedig o Gyngor y Gymdeithas, a hefyd mewn etholiadau i dderbyn Cymrodyr pellach i'r Gymdeithas.

iii. Bydd gan Gymrodyr hawl i fynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, yn ogystal ag unrhyw Gyfarfodydd Cyffredinol eraill a gynhelir.

iv. Bydd gan Gymrodyr hawl i bleidleisio yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, yn ogystal ag mewn unrhyw Gyfarfodydd Cyffredinol eraill a gynhelir

v. Bydd gan Gymrodyr hawl i fynychu unrhyw ddarlithoedd, cynadleddau neu symposia y gallai'r Gymdeithas eu trefnu; bydd y Gymdeithas yn cadw'r hawl i godi ffi mynediad i'r rhain, os yw'n briodol.

12.3 Os na fydd Cymrawd, yn dilyn cais gan y Trysorydd, yn talu unrhyw gyfraniad sy'n ddyledus iddo, adroddir amdano wrth Drysorydd y Cyngor, ac, os yw'r Cyngor yn ystyried hynny'n briodol, datgenir nad yw'n Gymrawd mwyach.

12.4 **Enwebu ac ethol Cymrodyr**

i. ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a all gael eu diffinio gan y Cyngor, bydd Cymrodyr yn cael eu henwebu a'u hethol yn unol â gweithdrefnau a ddiffinnir yn y Rheoliadau hyn; bydd y Cyngor yn cadw Cofrestr o'r holl Gymrodyr.

ii. Gall y Cyngor benderfynu ar nifer y Cymrodyr i'w hethol mewn unrhyw Flwyddyn Gymdeithas yn y cyfarfod Arbennig ym mis Mawrth. Heb benderfyniad o'r fath, ni cheir uchafswm.

iii. Er mwyn cael ei enwebu i'w ystyried i'w ethol yn Gymrawd, bydd pob Ymgeisydd i'w dderbyn i'r Gymdeithas yn cael ei gynnig gan Gymrawd (y Prif Gynigydd) a'i gefnogi gan Gymrawd pellach (y Cynigydd sy'n Eilio); bydd pob enwebiad yn y fformat a bennir gan y Cyngor ac yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol i ystyried yr enwebiad; os bydd Ymgeisydd yn aflwyddiannus yn y broses ethol, bydd ganddo hawl i dderbyn adborth a chyngor ar gais yr Is-lywydd priodol. Gellir gwahodd cynigydd yr enwebai i ystyried cyflwyno enwebiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

iv. Bydd y Cymrawd sy'n llofnodi'r ffurflen enwebu fel Prif Gynigydd yn gyfrifol am sicrhau caniatâd yr Ymgeisydd i gyflwyno'r enwebiad; bydd y Prif Gynigydd yn ymrwymo i ddarparu, ac os oes angen, diweddaru, yr wybodaeth sy'n ofynnol i ystyried yr enwebiad.

v. Rhoddir o leiaf 5 wythnos o rybudd i Gymrodyr o'r dyddiad cau ar gyfer enwebu i'r Gymrodoriaeth, a rhaid i'r dyddiad hwn fod o leiaf chwe wythnos ar hugain cyn dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

vi. Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgorau Craffu a ystyrir yn briodol ganddo i ystyried enwebiadau dilys a dderbynnir erbyn y dyddiad cau; bydd yr enwebiadau'n cael eu rhannu rhwng y Pwyllgorau Craffu, a bydd aelodau'r Pwyllgorau hynny'n cael manylion perthnasol o'r rhestr yn nhrefn yr wyddor a chopïau o'r ffurflenni enwebu perthnasol; bydd pob Pwyllgor Craffu yn penderfynu ar yr Ymgeiswyr hynny a ystyrir ganddo fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf i'w hethol, ac yn llunio rhestr o Ymgeiswyr a argymhellir; bydd pob Pwyllgor Craffu yn trosglwyddo ei restr o Ymgeiswyr a argymhellir i'r Is-lywyddion a fydd yn eu tro yn llunio eu rhestr hwythau o Ymgeiswyr a argymhellir a gyflwynir i'r Cyngor i'w hystyried heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos cyn dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

vii. bydd y Cyngor yn ystyried argymhellion yr Is-lywyddion ac yn llunio rhestr derfynol gymeradwy o Ymgeiswyr i'w hethol

viii. anfonir y rhestr derfynol gymeradwy at y Cymrodyr cyfredol o leiaf chwe wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

ix. cynhelir etholiad Cymrodyr newydd drwy bleidlais ymysg yr holl Gymrodyr presennol; dim ond Ymgeiswyr a argymhellir gan y Cyngor fydd yn gymwys i gael eu hethol.

x. cyn gynted â phosibl yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, bydd dau Gymrawd, na fyddant yn aelodau o'r Cyngor, yn cael eu henwebu gan y Llywydd i'w penodi'n Graffwyr ar gyfer yr etholiad; y Craffwyr yn unig a fydd yn archwilio ac yn cyfrif y pleidleisiau, ym mhresenoldeb y Clerc, y byddant yn cyflwyno eu hadroddiad iddo; er mwyn cael ei ethol rhaid i ymgeiswyr dderbyn cefnogaeth mwyafrif syml o'r Cymrodyr hynny sy'n pleidleisio erbyn y dyddiad cau; yna bydd y Clerc yn adrodd canlyniad yr etholiad wrth y Llywydd; wedi hynny, bydd yr Ymgeisydd llwyddiannus yn cael gwybod ei fod wedi cael ei ethol yn Gymrawd i'r Gymdeithas; bydd y Clerc hefyd yn hysbysu'r holl Gymrodyr ynghylch enwau'r holl Gymrodyr sydd newydd eu hethol ac yn trefnu i'r canlyniad gael ei gyhoeddi'n gyhoeddus; Bydd y Gymrodoriaeth yn dod i rym o'r dyddiad y gwneir y cyhoeddiad cyhoeddus.

xi. yn absenoldeb y Clerc bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

12.5. Gweithdrefn ar gyfer derbyn Cymrodyr newydd i'r Gymdeithas:

i. ystyrir bod pob Cymrawd newydd, ar ôl ei ethol ac ar ôl cyhoeddi hynny, wedi cael ei dderbyn i freintiau'r Gymrodoriaeth fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau hyn; dylid gwahodd pob Cymrawd newydd i ddod i unrhyw gyfarfod a bennir gan y Llywydd, er mwyn cael ei groesawu a'i dderbyn yn ffurfiol i Gymrodoriaeth y Gymdeithas; yn y cyfarfod hwnnw, dylid cyflwyno'r Cymrawd newydd i'r Llywydd neu, yn ei absenoldeb, i Is-lywydd, a ddylai ei gyfarch â'r geiriau canlynol:

"Yn enw a thrwy awdurdod Cymdeithas Ddysgedig Cymru, yr wyf yn eich derbyn yn Gymrawd i'r Gymdeithas"

ii. bydd wedyn yn llofnodi Cofrestr y Cymrodyr, gan gadarnhau drwy hynny "Fel Cymrawd etholedig Cymdeithas Ddysgedig Cymru, yr wyf yn ymrwymo i wneud popeth o fewn fy ngrym i gefnogi dibenion ac enw da'r Gymdeithas"; mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Llywydd awdurdodi trefniadau eraill ar gyfer derbyn Cymrawd newydd yn ffurfiol.

12.6 Dylai pob Cymrawd dalu ffi mynediad a thanysgrifiad am y Flwyddyn Gymdeithas lawn gyntaf ar ôl cael ei ethol. Ac eithrio pan fydd y Cyngor yn penderfynu fel arall ar sail unigol, dylai pob Cymrawd barhau i dalu tanysgrifiad blynyddol ar ddechrau pob sesiwn gyhyd â'i fod yn parhau i fod yn Gymrawd. Bydd y ffi tanysgrifio a mynediad blynyddol yn symiau a bennir gan y Cyngor am y tro.

12.7 Gall Cymrawd, ar ôl ymddiswyddo neu gael ei dynnu o'r Gymrodoriaeth, wneud cais i gael ei ail-dderbyn i'r Gymrodoriaeth. Bydd gan y Cyngor ddisgresiwn i benderfynu a ellir derbyn y Cymrawd yn ôl ar unwaith, a ellir ei dderbyn yn ôl gan ddisgwyl cael ei ethol gan y Gymrodoriaeth, neu a ddylid peidio â'i dderbyn yn ôl.

12.8 Bydd y Gymdeithas yn cadw Cofrestr o Gymrodyr.

## 13. Cymrodyr er Anrhydedd

13.1. Gall Cymrodyr er Anrhydedd fod o unrhyw genedl, cefndir neu faes arbenigedd, gyhyd â bod modd dangos eu bod wedi:

- Gwneud cyfraniad gwirioneddol ragorol i fyd dysg
- Sefydlu enw da a statws byd-eang yn eu maes.

13.2 Bydd rôl a chyfrifoldebau Cymrodyr er Anrhydedd, o'u cymharu â rôl a chyfrifoldebau Cymrodyr, wedi'u diffinio yn y Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.

13.3 Diffinnir breintiau bod yn Gymrawd er Anrhydedd y Gymdeithas fel a ganlyn:

i. Bydd gan Gymrodyr er Anrhydedd hawl i gyfeirio atynt eu hunain fel Cymrodyr er Anrhydedd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, ac ymhellach i hyn, bydd ganddynt hawl i ddefnyddio'r llythrennau HonFLSW ar ôl eu henwau.
ii. Bydd gan Gymrodyr er Anrhydedd hawl i fynd i Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, yn ogystal ag unrhyw Gyfarfodydd Cyffredinol eraill a all gael eu cynnal, ond ni chânt bleidleisio yn y cyfarfodydd hynny.
iii. Bydd gan Gymrodyr er Anrhydedd hawl i fynd i unrhyw ddarlithoedd, cynadleddau neu symposia y gallai'r Gymdeithas eu trefnu; bydd y Gymdeithas yn cadw'r hawl i godi ffi mynediad i'r rhain, os yw'n briodol.

13.4. Enwebu ac ethol Cymrodyr er Anrhydedd

i. ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel y'u diffinnir gan y Cyngor, dylid enwebu ac ethol Cymrodyr er Anrhydedd yn unol â gweithdrefnau a ddiffinnir yn y Rheoliadau hyn;
ii. ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel y'u diffinnir gan y Cyngor, ni chaniateir ethol mwy na dau Gymrawd er Anrhydedd i'r Gymdeithas mewn unrhyw Flwyddyn Gymdeithas.
iii. er mwyn cael ei enwebu i'w ystyried i'w ethol yn Gymrawd Anrhydeddus, bydd pob Ymgeisydd i'w dderbyn i'r Gymdeithas yn cael ei gynnig gan Gymrawd (y Prif Gynigydd) a'i gefnogi gan ddau Gymrawd arall (yr Ail Gynigwyr); bydd pob enwebiad yn y fformat a bennir gan y Cyngor ac yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol i ystyried yr enwebiad;
iv. Rhoddir o leiaf 5 wythnos o rybudd i Gymrodyr o'r dyddiad cau ar gyfer enwebu i'r Gymrodoriaeth, a rhaid i'r dyddiad hwn fod o leiaf chwe wythnos ar hugain cyn dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
v. Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau caniatâd yr Ymgeisydd i gyflwyno'r enwebiad; Bydd y Cynigydd yn ymrwymo i ddarparu, a diweddaru os oes angen, yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn ystyried yr enwebiad.

vi. Bydd Pwyllgor y Gymrodoriaeth yn craffu ar enwebeion y mae eu tystysgrifau argymell yn ddilys (o ran eu bod yn bodloni'r amodau a nodir yn y Rheoliadau hyn) ar y dyddiad cau, gan gyfeirio at y Pwyllgorau Craffu; yna bydd Pwyllgor y Gymrodoriaeth yn cyflwyno rhestr o enwebeion a gynigir i'r Cyngor eu trafod.

vii. Yng nghyfarfod mis Tachwedd, dylai'r Cyngor ystyried tystysgrifau argymell dilys a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau a chytuno a ddylid ceisio enwebiad llawn i'r enwebai.

viii. pan fydd ffurflenni enwebu llawn wedi dod i law, dylai'r Cyngor benderfynu pa Ymgeiswyr a ystyrir ganddo'n addas i'w hethol a llunio rhestr o Gymrodyr er Anrhydedd i'w cyflwyno ar bapur pleidleisio'r Gymrodoriaeth, heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos cyn dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

x. ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a all gael eu diffinio gan y Cyngor, ni ddylai nifer yr Ymgeiswyr sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr gymeradwy derfynol fod yn fwy na dau, a dylid ei chyflwyno i'r Cymrodyr heb fod yn hwyrach na chwe wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

xi cynhelir etholiad Cymrodyr er Anrhydedd drwy bleidlais ymhlith y Cymrodyr; dim ond Ymgeiswyr a argymhellir gan y Cyngor fydd yn gymwys i gael eu hethol.

xii. cyn gynted â phosibl yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, dylai dau Gymrawd, nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, gael eu henwebu gan y Llywydd i'w penodi'n Graffwyr ar gyfer yr etholiad; y Craffwyr yn unig a fydd yn archwilio ac yn cyfrif y pleidleisiau, ym mhresenoldeb y Clerc, y byddant yn cyflwyno eu hadroddiad iddo; er mwyn cael ei ethol rhaid i ymgeiswyr dderbyn cefnogaeth mwyafrif syml o'r Cymrodyr hynny sy'n pleidleisio erbyn y dyddiad cau; yna bydd y Clerc yn adrodd canlyniad yr etholiad wrth y Llywydd; wedi hynny, bydd yr Ymgeisydd llwyddiannus yn cael gwybod ei fod wedi cael ei ethol yn Gymrawd i'r Gymdeithas; bydd y Clerc hefyd yn hysbysu'r holl Gymrodyr ynghylch enwau'r holl Gymrodyr sydd newydd eu hethol ac yn trefnu i'r canlyniad gael ei gyhoeddi'n gyhoeddus; Bydd y Gymrodoriaeth yn dod i rym o'r dyddiad y gwneir y cyhoeddiad cyhoeddus.

xii yn absenoldeb y Clerc bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

13.5. Gweithdrefn ar gyfer derbyn Cymrodyr er Anrhydedd newydd i'r Gymdeithas:

i. ystyrir bod pob Cymrawd er Anrhydedd newydd, ar ôl ei ethol ac ar ôl cyhoeddi hynny, wedi cael ei dderbyn i freintiau'r Gymrodoriaeth fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau hyn; gwahoddir pob Cymrawd er Anrhydedd newydd i fynychu unrhyw gyfarfod a bennir gan y Llywydd, er mwyn cael ei groesawu a'i dderbyn yn ffurfiol i fod yn Gymrawd er Anrhydedd y Gymdeithas; yn y cyfarfod hwnnw, dylai'r Cymrawd er Anrhydedd newydd gael ei gyflwyno i'r Llywydd neu, yn ei absenoldeb, i Is-lywydd, fel y darperir ar gyfer hynny yn y Rheoliadau hyn, a fydd yn ei gyfarch â'r geiriau canlynol:

“Yn enw a thrwy awdurdod Cymdeithas Ddysgedig Cymru, yr wyf yn eich derbyn yn Gymrawd er Anrhydedd i'r Gymdeithas”.

ii. bydd wedyn yn llofnodi Cofrestr y Cymrodyr, gan gadarnhau drwy hynny "Fel

Cymrawd er Anrhydedd etholedig Cymdeithas Ddysgedig Cymru, yr wyf yn ymrwymo i wneud popeth o fewn fy ngrym i gefnogi dibenion ac enw da'r Gymdeithas"; mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Llywydd awdurdodi trefniadau eraill ar gyfer derbyn Cymrawd er Anrhydedd newydd yn ffurfiol.

11.6 Bydd y Gymdeithas yn cadw Cofrestr o'r holl Gymrodyr er Anrhydedd.

**14. Honiadau o Gamymddwyn ymhlith Cymrodyr**

14.1 Bydd y Cyngor yn cadw at bolisi ar gyfer ymdrin â chwynion neu honiadau difrifol yn erbyn Cymrodyr.

14.2 Bydd y polisi’n amlinellu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i bob cwyn neu honiad o’r fath. Bydd yn amlinellu ystod o sancsiynau y gellir eu cymhwyso os bydd ymchwiliad yn cadarnhau bod ymddygiad Cymrawd yn niweidio cymeriad, buddiannau neu enw da'r Gymdeithas. Yn yr achosion mwyaf difrifol, gellir tynnu'r Gymrodoriaeth yn ôl fel cosb. Os tynnir y gymrodoriaeth yn ôl, ni fydd gan yr unigolyn hwnnw hawl i ddefnyddio'r llythrennau dynodedig FLSW (neu HonFLSW, os yw'n Gymrawd er Anrhydedd) mwyach; bydd ei enw'n cael ei dynnu oddi ar y gofrestr Cymrodyr; a byddant yn colli unrhyw swydd neu hawl arall a roddwyd iddynt gan y Gymdeithas.

**15. <u>Aelodau Cysylltiol</u>**

15.1 Diffiniad o Aelodau Cysylltiol:

i. bydd gan y Cyngor y pŵer i wneud darpariaeth fel bod personau a/neu sefydliadau nad ydynt yn Gymrodyr yn cael eu gwneud yn Aelodau Cysylltiol o'r Gymdeithas, yn unol â'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.
ii. Aelodau Cysylltiol fydd y personau neu'r sefydliadau hynny sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas sydd â'r breintiau a ragnodir yn y Rheoliadau hyn ond nad ydynt yn Gymrodyr nac yn Gymrodyr er Anrhydedd ac nad oes ganddynt yr hawl i fynychu Cyfarfodydd Cyffredinol na chael pleidlais yn etholiadau Cymrodyr, Cymrodyr er Anrhydedd, y Llywydd nac Aelodau Etholedig o Gyngor y Gymdeithas.
iii. ceir dau gategori o Aelodau Cysylltiol: Unigolion Cysylltiol a Chorff Cysylltiol

15.2. Unigolyn Cysylltiol fydd unrhyw unigolyn sydd â chysylltiad â Chymru neu ddiddordeb yng Nghymru ac sydd:

i. yn llenwi ffurflen gais
ii. yn cael ei ystyried yn Unigolyn Cysylltiol addas ym marn y Cyngor

iii. yn talu'r tanysgrifiad blynyddol a bennir gan y Cyngor
iv. wedi'i gofrestru fel Aelod Cysylltiol gan y Gymdeithas

15.3 Bydd gan Unigolyn Cysylltiol hawl i dderbyn cyhoeddiadau gan y Gymdeithas a chael ei hysbysu am ddigwyddiadau a bennir gan y Gymdeithas o dro i dro, a bod yn bresennol yn y digwyddiadau hynny. Bydd gan y Gymdeithas yr hawl i godi ffi i gael mynediad i'r rhain, os yw'n briodol.

15.4. Corff Cysylltiol fydd unrhyw gorff neu sefydliad â chysylltiad â Chymru neu ddiddordeb yng Nghymru ac sydd:

i. yn llenwi ffurflen gais
ii. yn cael ei ystyried yn Gorff Cysylltiol addas ym marn y Cyngor
iii. yn talu'r tanysgrifiad blynyddol a bennir gan y Cyngor
iv. wedi'i gofrestru fel Aelod Cysylltiol gan y Gymdeithas

15.5 Bydd gan Gorff Cysylltiol hawl i dderbyn cyhoeddiadau gan y Gymdeithas a chael ei hysbysu am ddigwyddiadau a bennir gan y Gymdeithas o dro i dro, ac anfon cynrychiolwyr, y pennir eu nifer gan y Cyngor, i fod yn bresennol yn y digwyddiadau hynny. Bydd gan y Gymdeithas yr hawl i godi ffi i gael mynediad i'r rhain, os yw'n briodol.

15.6 Bydd y Gymdeithas yn cadw Cofrestr o'r holl Aelodau Cysylltiol.

15.7. Terfynu statws Cysylltiol

i. os na fydd Aelod Cysylltiol wedi talu'r tanysgrifiad blynyddol cyn pen chwe deg diwrnod o dderbyn anfoneb, bydd y Trysorydd yn adrodd am hynny wrth y Cyngor, ac, os yw'r Cyngor yn ystyried hynny'n briodol, datgenir nad yw'r Aelod Cysylltiol yn Aelod Cysylltiol mwyach; gellir cynnwys Aelod Cysylltiol ar y Gofrestr Aelodau Cysylltiol unwaith eto ar ôl talu unrhyw danysgrifiad sy'n ddyledus
ii. bydd gan y Cyngor y bŵer i benderfynu terfynu statws cysylltiol Aelod Cysylltiol mewn amgylchiadau o'r fath, ar y cyfryw amser ac yn y cyfryw fodd ag y bydd y Cyngor yn ei ystyried yn briodol yn ôl ei ddisgresiwn llwyr; mewn unrhyw achos o'r fath, bydd gan y Cyngor y pŵer i ad-dalu'r holl danysgrifiad, neu gyfran o'r tanysgrifiad, a dalwyd gan yr Aelod Cysylltiol dan sylw ar gyfer y Flwyddyn Gymdeithas gyfredol, yn ôl yr hyn a ystyrir yn addas ganddo yn ôl ei ddisgresiwn llwyr

## 16. <u>Trafodion y Cyngor</u>

16.1 Cyfarfodydd cyffredin y Cyngor

i. cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Cyngor fel arfer o leiaf dair gwaith y flwyddyn, ar yr adegau ac yn y lleoedd a bennir gan y Cyngor.
ii. Dylai aelodau'r Cyngor fod yn barod i fynd i gyfarfodydd ychwanegol os bydd busnes y Gymdeithas yn mynnu hynny.
iii. rhaid i'r Clerc anfon rhybudd rhagarweiniol o bob cyfarfod cyffredin at holl aelodau'r Cyngor o leiaf bedair wythnos cyn dyddiad y cyfarfod hwnnw; bydd rhybudd pellach yn nodi'r busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod yn cael ei anfon gan y Clerc at holl aelodau'r Cyngor erbyn y chweched diwrnod gwaith cyn y cyfarfod fan bellaf

16.2 Cyfarfodydd arbennig y Cyngor

i. gall y Llywydd gynnull cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar ôl derbyn cais gan o leiaf chwe aelod o'r Cyngor yn nodi'r pwrpas cynnal y cyfarfod
ii. bydd cyfarfod arbennig a gynhelir ar gais aelodau o'r Cyngor yn cael ei gynnull gan ei gynnal cyn pen pedair wythnos ar ôl derbyn rhybudd gan y Clerc; rhaid anfon rhybudd rhagarweiniol o gyfarfod arbennig at holl aelodau'r Cyngor bythefnos o leiaf cyn y cyfarfod
iii. mewn unrhyw gyfarfod arbennig bydd y busnes wedi'i gyfyngu i'r hyn yr hysbyswyd amdano a'r busnes hwnnw y mae'r Llywydd yn ei ddatgan ei fod yn codi'n uniongyrchol o'r busnes hwnnw

16.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor fydd y lleiaf o wyth aelod o'r Cyngor neu draean (neu'r nifer cyfan uwch nesaf) o aelodau'r Cyngor. Os nad oes cworwm ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod heblaw gohirio'r cyfarfod.

16.4 Bydd y dull o alw cyfarfod gohiriedig, a'r cyfnod o rybudd i'w roi, yn ôl disgresiwn y Llywydd.

16.5 Rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno cyflwyno busnes mewn cyfarfod o'r Cyngor roi rhybudd ysgrifenedig i'r Clerc o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Ni chaiff papurau heblaw'r rhai a ddosberthir i aelodau'r Cyngor gan y Clerc eu hystyried gan y Cyngor, ac eithrio gyda chaniatâd y Llywydd.

16.6 Bydd busnes cyfarfodydd cyffredin yn cynnwys:

i. lle bo angen, penodi Cadeirydd, yn unol â'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.
ii. cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol
iii. materion yn codi o'r cofnodion
iv. materion i'w hystyried ac/neu i benderfynu yn eu cylch
v. materion i'w hadrodd
vi. unrhyw fater arall, lle bo angen; os yw aelodau'r Cyngor yn dymuno codi unrhyw fater arall, rhaid iddynt roi rhybudd ymlaen llaw o hynny cyn dechrau'r cyfarfod; Cadeirydd y cyfarfod fydd i benderfynu a ddylid trafod y mater yn y cyfarfod

vii. gall y Cyngor, neu Gadeirydd y cyfarfod, yn ôl eu disgresiwn, benderfynu amrywio trefn cynnal busnes y cyfarfod

viii. ni fydd materion i'w hadrodd fel arfer yn cael eu trafod gan y Cyngor, ond caiff unrhyw aelod o'r Cyngor ofyn am gael trafod eitem sydd wedi'i chynnwys o dan "materion i'w hadrodd"; rhaid darparu unrhyw gais o'r fath i'r Clerc, i gyrraedd erbyn hanner dydd ar y diwrnod gwaith olaf cyn y cyfarfod

ix. bydd gan y Cyngor y pŵer i wneud Rheoliadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn llywodraethu a gweinyddu ei gyfarfodydd ymhellach fel bo'n briodol

16.7 Rhaid i Aelod o'r Cyngor ddatgan unrhyw fuddiant ariannol, personol neu deuluol mewn unrhyw fater sy'n cael ei drafod ac ni chaiff gymryd rhan wrth ystyried unrhyw fater o'r fath y mae ganddo fuddiant o'r fath ynddo, ac ni chaiff bleidleisio arno a rhaid iddo (oni bai ei fod yn cael gwahoddiad i aros) ymadael yn ystod y drafodaeth, ac eithrio wrth drafod cynigion ar gyfer yswirio aelodau'r Cyngor rhag atebolrwydd yn cael eu trafod. Os oes angen, bydd Llywydd a Chadeirydd y Cyngor neu, yn eu habsenoldeb neu lle bo'r mater yn ymwneud â buddiannau Llywydd a Chadeirydd y Cyngor, Is-lywydd yn penderfynu a yw unrhyw Aelod o'r Cyngor yn destun gwrthdaro buddiannau ar adeg neilltuol. Os yw buddiannau Llywydd a Chadeirydd y Cyngor i'w hystyried ac nad oes Is-lywydd yn bresennol, bydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd Pwyllgor o'r Cyngor sydd hefyd yn aelod o'r Cyngor yn penderfynu ar y mater. Os yw buddiannau Is-lywydd i'w hystyried ac nad oes Llywydd na Chadeirydd y Cyngor nac unrhyw Is-lywydd arall yn bresennol, bydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd Pwyllgor o'r Cyngor sydd hefyd yn aelod o'r Cyngor yn penderfynu ar y mater.

16.8 Bydd y Gymdeithas yn cadw Cofrestr Buddiannau ar gyfer holl aelodau'r Cyngor, y Pwyllgorau Llywodraethu a'r staff.

## 17. Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol

17.1 Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas bob blwyddyn ar ddyddiad ac amser ac mewn lle yng Nghymru sydd i'w pennu gan y Cyngor. Ni ddylai mwy na phymtheg mis fynd heibio rhwng dyddiad y naill Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a dyddiad yr un nesaf. Diffinnir y cyfnod o un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas i'r nesaf fel un Flwyddyn Gymdeithas.

17.2 Rhoddir rhybudd priodol o'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol i bob Cymrawd ac Archwilydd/Archwiliwr Ariannol Annibynnol, yn unol â darpariaethau'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.

17.3 Rhaid i'r Clerc anfon rhybudd o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol at y Cymrodyr o leiaf bum wythnos cyn dyddiad y cyfarfod.

17.4 Dim ond Cymrodyr, Cymrodyr er Anrhydedd, staff perthnasol y Gymdeithas ac Archwilwyr Annibynnol y caniateir iddynt fod yn bresennol yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ac eithrio drwy gymeradwyaeth mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cymrodyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

17.5 Y cworwm ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fydd y lleiaf o ugain neu draean (neu'r nifer cyfan uwch nesaf) o'r aelodau, a fydd yn bresennol eu hunain neu drwy ddirprwy.

17.6 Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fydd:

i. lle bo angen, penodi Cadeirydd, yn unol â'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.
ii. cyhoeddi'r Cymrodyr a'r Cymrodyr er Anrhydedd newydd sydd wedi'u hethol.
iii. cyhoeddi Swyddogion y Gymdeithas sydd wedi'u hethol, ac Aelodau Etholedig a Chyfetholedig y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Gymdeithas ddilynol.
iv. cyflwyno a mabwysiadu'r Datganiad Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y 31 Gorffennaf blaenorol.
v. cyhoeddi dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.
vi. unrhyw fater arall a nodwyd yn y rhybudd o'r cyfarfod, gan gynnwys unrhyw fater a godwyd yn briodol, ym marn y Llywydd, gan un neu fwy o Gymrodyr unigol, ac yr hysbyswyd y Clerc amdano o leiaf ddeugain niwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.
vii. cyhoeddi enwau unrhyw Gymrodyr sydd wedi marw ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol.

17.7 Yn unol â darpariaethau’r Siarter Frenhinol a’r Is-ddeddfau, ac eithrio’r materion canlynol, ystyrir bod yr holl fusnes a drafodir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn fusnes arbennig (y bydd angen cymeradwyaeth y Cymrodyr sy'n bresennol drwy wneud Penderfyniad Arbennig):

i. ystyried y cyfrif incwm a gwariant, y fantolen, adroddiadau'r Cyngor a'r Archwilwyr
ii. etholiadau
iii. cyhoeddi canlyniadau etholiadau

17.8 Penderfynir ar bob mater drwy fwyafrif syml. Os bydd y bleidlais yn gyfartal, bydd gan y Llywydd (neu, yn ei absenoldeb, Cadeirydd y cyfarfod) bleidlais fwrw.

17.9 Bydd gan bob Cymrawd yr hawl i siarad yn y Gymraeg neu yn Saesneg wrth annerch y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd y Clerc yn trefnu bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu yn ystod Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol.

## 18. <u>Cyfarfodydd Cyffredinol y Gymdeithas</u>

18.1 Gellir galw Cyfarfod Cyffredinol o'r Gymdeithas ar unrhyw bryd drwy gyfarwyddyd y Llywydd, y Cyngor, neu, ar gais gan isafswm o ddeg Cymrawd i'r Cyngor. Cynullir cyfarfod o'r fath cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a'r Cyngor fydd i benderfynu ar ddyddiad ac amser y cyfarfod hwnnw, heb roi llai na saith niwrnod o rybudd pan fydd cyfarfod o'r fath yn cael ei alw; ni thrafodir unrhyw fusnes arall.

18.2 Rhoddir rhybudd priodol o Gyfarfodydd Cyffredinol i bob Cymrawd, yn unol â darpariaethau'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.

18.3 Dim ond Cymrodyr a staff perthnasol y Gymdeithas y caniateir iddynt fod yn bresennol yn ystod cyfarfod a drefnir o dan y Rheoliadau hyn, ac eithrio drwy gymeradwyaeth gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cymrodyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

18.4 Y cworwm ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol fydd y lleiaf o ugain neu draean (neu'r nifer cyfan uwch nesaf) o'r aelodau, a fydd yn bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy.

18.5 Cynhelir trafodion mewn Cyfarfodydd Cyffredinol yn unol â'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau.

18.6 Ystyrir bod pob busnes a drafodir mewn Cyfarfod Cyffredinol yn arbennig (y bydd angen cymeradwyaeth y Cymrodyr ar ei gyfer drwy wneud Penderfyniad Arbennig).

18.7 Bydd gan bob Cymrawd yr hawl i siarad naill ai yn y Gymraeg neu yn Saesneg wrth annerch Cyfarfod Cyffredinol. Bydd y Clerc yn trefnu bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu yn ystod Cyfarfodydd Cyffredinol.

## 19. Trefniadau cyfrifyddu a gweithdrefnau ariannol

19.1 Bydd y Gymdeithas yn cadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen, ac yn ei galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2022, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth/cyfansoddiad.

19.2 Mae'r Gymdeithas yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

19.3 Bydd y Gymdeithas yn cadw cofnodion llawn o bob trafodyn ariannol a bydd yn cynhyrchu'r adroddiadau ariannol hynny sy'n angenrheidiol i ddangos gweithdrefnau cyfrifyddu priodol a defnydd priodol o gronfeydd.

## 20. <u>Gofynion a gweithdrefnau archwilio</u>

20.1 Bydd cyfrifon y Gymdeithas yn cael eu harchwilio’n flynyddol gan archwilwyr annibynnol a benodir gan y Cyngor.